PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 159 Rhif 23 Mehefin 4, 2026 50c.

## Cosbi Jesus am arddel Iesu – cyn y fuddugoliaeth fawr!




Nôl ym mis Ionawr cafodd y peldroediwr Gabriel Jesus (dyna chi enw!) gerdyn melyn gan y dyfarnwr am godi ei grys i ddangos crys T â'r geiriau *I belong to Jesus* ar ôl iddo sgorio gôl yn ystod buddugoliaeth Arsenal o 4–1 yn erbyn Aston Villa. Mae rheolau Cymdeithas Pêl-droed Lloegr yn gwahardd arddangos sloganau gwleidyddol, crefyddol neu bersonol ar ddillad chwaraewyr. Roedd Jesus wedi methu chwarae i Arsenal am flwyddyn gyfan cyn hynny ar ôl cael anaf cas, ac roedd am glodfori Iesu am ei helpu trwy gyfnod anodd, a'i alluogi i fod yn rhan o ymdrech ei glwb i ennill yr Uwch-gynghrair. Ac am y tro cyntaf ers 22 mlynedd dyna wnaeth Arsenal, er mawr lawenydd i'w llu o gefnogwyr – fel Lyn Ebeneser a Keir Starmer.

### Brodyr y Beibl

Yn ystod y dathliadau gyda'r cwpan a'u medalau fe wnaeth rhai o'r tîm buddugol, sy'n cael eu galw'n 'Frodyr y Beibl' wisgo crysau â sloganau Cristnogol, tra bod eraill yn gwneud arwydd y groes. Yn eu plith roedd Gabriel Martinelli, Miles Lewis-Skelly, Gabriel Magalhães, Piero Hincapié, Eberechi Eze, Gabriel Jesus, Max Dowman a Cristian Mosquera.

### Cyd-weddïo cyn y gemau

Mae nifer cynyddol o chwaraewyr Arsenal wedi datgan eu ffydd yn gyhoeddus, gan ddweud bod eu perthynas â Duw wedi cael dylanwad ar eu bywydau personol a phroffesiynol. Yn ystod y tymor buon nhw'n gweddïo a darllen o'r Beibl gyda'i gilydd yn rheolaidd wrth aros mewn gwestai cyn y gemau. Er mai Arsenal yw un o'r ychydig glybiau yn yr Uwch-gynghrair sydd heb gaplan, mae ffydd a chred yn cael parch mawr yn y clwb. Y llynedd fe wnaeth Mohamed Elney, sy'n Fwslim, agor ystafell aml-ffydd i'w gyd-chwaraewyr yn Stadiwm yr Emiradau. Mae rheolwr Arsenal, Mikel Arteta, wedi dweud ei fod yn llwyr gefnogol, gan fod ffydd a chred nifer o'i chwaraewyr yn cyfrannu tuag at eu lles a'u hiechyd meddwl. 'Mae'n beth rhyfeddol,' meddai. Amen i hynny!

## Cariad at Grist ac ieithoedd lleiafrifol

Roedd hi'n fraint cael cwmni Daniel Scott o Wlad y Basg gyda ni yn Ebeneser, Caerdydd ac yn Angor Grangetown ar ddydd Sul, 17 Mai. Mae Daniel yn dod yn



wreiddiol o Buenos Aires yn yr Ariannin. Bellach mae o a'i wraig Marta, gyda'u mab Iker, yn genhadon yng Ngwlad y Basg. Roedd wedi gweithio yno am wyth mlynedd mewn eglwys amlddiwylliannol yn Tolosa, ond sylweddolodd pa mor bwysig ydy'r iaith Fasgeg i'r bobl, ac aeth ati i sefydlu'r eglwys Brotestannaidd gyntaf sy'n addoli trwy gyfrwng y Basgeg yn unig.

### Addoli Duw trwy iaith y galon

Mae Daniel yn credu'n angerddol y dylai pobl gael addoli Duw drwy gyfrwng iaith y galon. Mae cyfran dda o'r boblogaeth yn siarad yr iaith Fasgeg, ond Sbaeneg ydy prif iaith addoliad yn yr eglwysi yn gyffredinol. Mae Daniel wedi ysgrifennu llyfrau yn y Fasgeg i rannu'r newyddion da am Iesu Grist, ond mae hefyd yn rapiwr, ac yn defnyddio

*parhad ar dudalen 2*




Mae Gwlad y Basg yn bennaf o fewn ffiniau Sbaen. Mae'r rhan honno tua'r union yr un faint â Chymru, gyda phoblogaeth debyg hefyd o bron i 3.2m, gyda'r mwyafrif yn byw yn rhanbarth Bilbao. Mae'r rhan sydd yn Sbaen wedi bod yn genedl ddatganoledig er 1978. Mae 36% yn siarad Basgeg yn rhugl – canran sy'n codi i 57% ymhlith pobl ifanc. O ran y darn sydd yn Ffrainc, nid yw'r llywodraeth yno'n rhoi statws i'r genedl na'i hiaith.

# Cynulliad y Gynghrair Gynulleidfaol – Sheffield 9 Mai

*Felly boed i'ch goleuni chwithau lewyrchu gerbron eraill, er mwyn iddynt weld eich gweithredoedd da chwi a gogoneddu eich Tad, yr hwn sydd yn y nefoedd. (Matthew 5:16)*

Trwy'r blynyddoedd mae'r Undeb wedi bod yn agos iawn at y Gynghrair Gynulleidfaol (The Congregational Federation). Yn anffodus, eleni doedd Owain, Robin ac Elinor, y Llywydd, y darpar Lywydd a'r Ysgrifennydd Cyffredinol ddim yn medru mynd i'r cyfarfodydd yn Sheffield. Roedd yn fraint, felly, i Felicity a fi fynd ac anfon cofion yr Undeb at y Gynghrair. Mi gawsom diwrnod ysbrydoledig, llawn o obaith, mewn Canolfan Gobaith. Roedd yn dda clywed am fenter genhadol ymhlith pobl ifainc i fynd i Frasil nes ymlaen yn y flwyddyn, ac i gefnogi gwaith arbennig yn Ne America efo Cymorth Cristnogol. Mae Yvonne Campbell wedi bod yn ysgrifenyddes y Gynghrair ers amser maith ac mae ei gwaith yn rhoi pwyslais ar gefnogi eglwysi a'u bugeilio. Mae'n dda i weld pa mor effeithiol yw ei gwaith efo'r eglwysi.



### Gweithgareddau

Ar ôl dilyn cyrsiau'r Gynghrair ers diwedd y 1970au roedd yn wych i weld sut maen nhw'n datblygu dan arweiniad Catherine Booton. Maen nhw'n datblygu adnoddau digidol efo Ap newydd ar lein sydd yn ddiddorol.

Yn ystod ei blwyddyn hi fel llywydd roedd Caroline Stott wedi bod yn teithio o gwmpas yr eglwysi, yn trefnu Llan Llanast ac yn rhannu llyfr bach hyfryd ar gyfer plant roedd hi wedi ei ddarlunio, *Belinda Got it Wrong*. Wedi ei seilio ar ddameg y mab afradlon, stori am wenynen ydy hon. Roedd Rob Hunter yn cael ei urddo fel Llywydd newydd a siaradodd o am bwysigrwydd y pethau bychain. Albanwr ydi o ac er na soniodd am Dewi Sant, 'gwnewch y pethau bychain' oedd ei neges, ac mae ganddo fo weledigaeth i estyn i'r gymuned gyda chariad Duw. Y flwyddyn nesaf Graham Adams, darlithydd yn Luther King House, Manceinion ac awdur, *Holy Anarchy* a *God the Child* fydd y llywydd. Roedd ei brofiad o weithio efo CWM ym Mhen-rhys pan oedd o'n ifanc yn ddylanwad mawr ar ei fywyd.






Siaradodd Chris Gilham, Hwlffordd am ei elusen sy'n cefnogi pobl yn y Dwyrain Canol, ac roedd ei neges yn bwerus iawn wrth iddo siarad am ofn un ffrind yn arbennig yn Libanus yn y rhyfel. Pwysleisiodd werth medru cefnogi un person yn unig. Gofynnodd i'r gynulleidfa beth fedrwn ni ei wneud, a'i neges oedd pa mor bwysig yw gwneud y pethau bychain.

### Cydweithio a gweledigaeth

Mae'r Gynghrair, fel yr Undeb yn rhan o CWM a Cytûn. Roedd Tessa Henry-Robinson, llywydd Grŵp yr Eglwysi Rhyddion, yn siarad am bwysigrwydd gweithio efo'n gilydd, ac yn arbennig i helpu cymunedau gwahanol i fyw efo'i gilydd gan barchu eu hamrywiaeth. Mae gan y Gynghrair broblemau ariannol, a gormod o eglwysi sy'n cau. Ond ar yr un pryd mae ganddyn nhw weledigaeth fawr am yr eglwys, am yr Efengyl ac am deyrnas Duw.

Mae'r cyfarfodydd ond yn parhau am ddiwrnod, ond roedd cyngerdd cerddoriaeth werin nos Wener, rhyw fath o noson lawen ar y nos Sadwrn a gwasanaeth arbennig fore Sul, felly roedd digon o gyfle i ffrindiau gwrdd ac i dyfu efo'i gilydd. Dyna oedd y peth gorau am y diwrnod: cwrdd â hen ffrindiau a gwneud ffrindiau newydd.

**Richard Cleaves**

# Cariad at Grist ac ieithoedd lleiafrifol – parhad

cerddoriaeth rap i rannu'r neges ar y strydoedd. Yr elusen Linguae Christi sy'n cefnogi gweinidogaeth Daniel – elusen sydd yn hybu ac annog addoliad a chenhadaeth trwy gyfrwng yr ieithoedd brodorol lleiafrifol yn Ewrop. Mae'n faes cenhadol cwbl naturiol i ni Gymry Cymraeg ei gefnogi a'i hyrwyddo.

### Rhannu profiad a gweledigaeth

Drannoeth i'r Sul, cawsom groeso brwd gan Elinor Wyn Reynolds yn Nhŷ John Penri. Bu Dan yn rhannu ei brofiadau a'i weledigaeth ac roeddem yn rhyfeddu at y tebygrwydd rhwng ein profiadau ni Gymry Cymraeg a phrofiadau siaradwyr y Fasgeg. Roedd hi fel dydd y Pentecost yn stiwdio fach Tŷ John Penri gyda phedair iaith yn cael eu defnyddio yn yr un cyfweliad! – y Gymraeg, y Saesneg, y Sbaeneg a'r Fasgeg. Edrychwn ymlaen at weld y sgwrs ar y we a'r cyfryngau cymdeithasol cyn bo hir.

**Arfon Jones**

Yr Adran
Gydenwadol

4 Mehefin 2026
Rhifyn 275

I ddarllen y cyhoeddiad digidol *Cenn@d* yn llawn cliciwch isod:
www.cennad.cymru

# Dathlu gyda'r Urdd ym Môn

Yn ystod wythnos hanner tymor diwedd Mai cafwyd gwledd gelfyddydol a diwylliannol wrth i Gymry o bob rhan o'r wlad ddod ynghyd ar gyfer Eisteddfod yr Urdd Môn 2026. Mewn wythnos lle gwelwyd torri sawl record o ran y diwrnodau poethaf mewn hanes ar gyfer mis Mai, daeth degau o filoedd i gystadlu a mwynhau ar faes Sioe Môn. Roedd yna gryn newid i'r trefniadau eleni, gyda'r ŵyl yn ymestyn i saith diwrnod, gan ddechrau ddydd Sadwrn gyda'r cystadlaethau dawnsio a rhai i siaradwyr newydd.



*Bwrlwm yn y babell gydag amrywiaeth o weithgareddau i blant*

Ar y bore Sul cafwyd oedfa yn y Pafiliwn Gwyrdd ar thema pererindod, wedi ei sgriptio'n gywrain gan Huw Tegid Roberts. Roedd hyn yn clymu â gwaith Esgobaeth Bangor a'u cynllun 'Pererin', wrth iddynt lansio llwybr pererindod newydd Cybi–Seiriol. Cawsom gyfarfod Erin Pererin yn yr oedfa, sef cymeriad a grëwyd i hyrwyddo'r llwybr. Roedd Cybi a Seiriol yn gweinidogaethu bob pen i Ynys Môn, ond yn cyfarfod â'i gilydd bob wythnos yn ymyl ffynnon gysegredig yng nghanol yr ynys. Uchafbwynt y gwasanaeth oedd y caneuon a gyflwynwyd gan gôr Ysgolion Sul Môn o dan arweiniad Catrin Toffoc. Diolch am gael ein hatgoffa o'n hanes ac o stori fyw Cristnogaeth ar yr ynys heddiw. Diolch hefyd am weld cynulliad teilwng o bobl wedi dod ynghyd i addoli o bob rhan o Fôn a thu hwnt.




*Côr Ysgolion Sul Môn yn canu ym mhabell Cytûn bnawn Sul*

Yn ôl yr arfer, roedd gan Cytûn babell ar y maes, a hynny mewn cydweithrediad ag eglwysi ac ysgolion Sul y fro. Mae Aled a Delyth Davies, oedd yn gyfrifol



*Huw Tegid Roberts yn arwain y gwasanaeth yn y Pafiliwn Gwyrdd*



*Geth Tomos yn cynnal sesiwn drymio gyda chriw o blant ar y stondin*

*Cyhoeddir Cenn@d ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg*

am drefnu'r babell ar ran Cytûn, yn ddiolchgar am bob cefnogaeth a gafwyd. Bu degau'n gwirfoddoli yn ystod yr wythnos, a rhannwyd miloedd o ddiodydd a Haribos i blant, heb anghofio'r *freebies*. Braf oedd cael rhannu pabell efo Esgobaeth Bangor, oedd yn hybu eu llwybr pererindod. Yn ystod yr wythnos cafwyd gweithgareddau gan Gymorth Cristnogol, Alffa Ieuenctid Cymru, yn ogystal â gweithdai drymio dyddiol o dan ofal Geth Tomos, enillydd Cân i Gymru eleni, a ddaeth â'i dlws i mewn i'r stondin gyda fe. Roedd y Cyngor Ysgolion Sul yno gyda'r arlwy arferol o lyfrau ac adnoddau, ac ar gael i sgwrsio am waith cenhadaeth yn lleol. Croesawyd miloedd o blant a phobl i mewn i'r stondin, yn eu plith, ein Prif Weinidog newydd, Rhun ap Iorwerth, ac Archesgob Cymru, Cherry Vann.

Diolch arbennig i eglwysi Môn am eu cefnogaeth ac i'r rhai a dreuliodd amser ar y stondin yn cynnal gweithgareddau a rhannu diodydd. Roedd yn braf gweld y bwrlwm a'r cydweithio, a phawb yn mwynhau'r arlwy. Ymhen y flwyddyn, Casnewydd fydd yn gwahodd, ac edrychwn ymlaen at symud o Fôn i Fynwy ar gyfer 2027.




*Rhai o'r gwirfoddolwyr fu'n cynorthwyo yn y babell*


Yr un penwythnos cynhaliwyd gŵyl Gristnogol ar faes y sioe yng Nghaerfyrddin, lle daeth dros 1,500 ynghyd ar gyfer diwrnod teulol. Diolch i Beti-Wyn James am gamu i mewn i gynrychioli'r Cyngor Ysgolion Sul yno gyda stondin lyfrau.



*Y Prif Weinidog, Rhun ap Iorwerth, yn ymweld â phabell Cytûn gyda Nia Elain Roberts ac Aled Davies*



*Aled a Delyth gyda Kathryn Stowers, darpar Gadeirydd Cytûn a Jennie Hurd, Cadeirydd presennol Cytûn*

CYNHADLEDD CENADAETHAU GWLEDIG

CODI HYDER FEIBLAIDD MEWN CRISTNOGION GWLEDIG

**Dydd Mawrth Mehefin 30 2026**
**10yb tan 4yp**
**Am ddim – Cinio a lluniaeth ysgafn**
**Canolfan Pererin Mary Jones, Bala, LL23 7YF**

Dros 200 mlynedd yn ôl, cerddodd merch ifanc o Gymru dros y mynyddoedd oherwydd ei bod hi'n dyheu am fod yn berchen ar gopi o'r Beibl yn iaith ei chalon.
Heddiw mae nifer o eglwysi gwledig dal i garu'r Beibl, ond efallai nad oes ganddynt hyder i'w rannu â'u cymunedau.
Mae'r cyfarfod hwn yng Nghanolfan Pererin Mary Jones yn dod ag arweinwyr eglwysig, gwirfoddolwyr ac arloeswyr cenhadol ynghyd i ailddarganfod hyder yn yr Ysgrythur ac archwilio sut y gall y Beibl lunio cenhadaeth yng nghefn gwlad Cymru.


CENHADAETH WLEDIG

ARCHEBWCH NAWR

**www.ruralmissions.org.uk/cymru**

CYMDEITHAS Y BEIBL





**CRISTNOGAETH 21**

**Trafodaeth ar Zoom**

**Mehefin 29, 18.30 – 19.30**


- Pwy ydyn ni?
- Beth ydyn ni'n ei wneud?
- Beth yw ein cynlluniau?

**Dewch i ddysgu mwy am C21 ac ymuno yn y sgwrs**

I gael y ddolen Zoom, anfonwch neges at cristnogaeth21@gmailcom

# Codi'r Llen: merched yr Hen Destament a'u dewisiadau

Maes Llafur i oedolion 2025/26




**Codi'r Llen 25**

## Ymson yr hudoles

Bydd rhai'n f'ystyried yn ddim ond llais yn ymbil yn y tywyllwch, neu enaid gwan yn mynnu sylw. Bydd eraill yn fy meirniadu'n hallt. 'Gwraig wirion Potiffar ydy hi' – dyna a ddywedant. Ers ei briodi, dydw i ddim wedi byw fel person yn fy nghroen fy hun. Welodd neb fy unigedd. Dyw muriau cartref cyfoethog ddim bob amser yn cael eu naddu o aur coeth; weithiau, mae'r waliau'n ysgythrog ac yn oer.

Daeth Joseff atom fel caethwas, ond heb ymarweddu felly. Byddai'r gweision eraill yn crymu'n benisel dan bwysau gwaith, ond nid felly Joseff. Cerddai â sicrwydd yn ei gamau. Roedd ei lefaru hefyd yn ofalus: pob gair yn ei le, ei frawddegau wedi'u plethu'n gelfydd a'i feddwl yn chwim a doeth. Cafodd sylw gan fy ngŵr – y math o sylw sy'n dyrchafu gwas i safle uwch nag y dylai ei gael. Yn fuan wedi iddo gyrraedd, cafodd gyfrifoldeb i ofalu am y cwbl: y gweision i gyd, y grawn a'r gwinllannoedd. Byddai fy ngŵr yn ei ganmol o flaen pawb, ag edmygedd yn ei lais. Roedd Joseff yn gwneud bywyd yn haws inni, oedd; ond eto, golygai hyn fod dieithrio rhyngof fi a fy ngŵr. Aeth Potiffar yn ddyfnach i mewn i'w bethau ei hun a'i ymwneud â phawb arall, ac eithrio fi.

Allwch chi ddychmygu sut beth yw cael eich anwybyddu yn eich cartref eich hun? Sut beth yw diflannu'n araf bach, heb neb yn malio?

Dechreuodd fy mlys am Joseff yn araf. Fel yr oedd sylw fy ngŵr tuag ataf yn lleihau, tyfu wnaeth fy nyheadau cyfrinachol. Gwelais Joseff yn ymddwyn yn barchus a charedig at bawb. Fedrwn i ddim deall pam yr oedd hynny'n fy nghyffroi ac yn fy nghynddeiriogi! Roedd e'n ddisgybledig ym mhopeth yr oedd yn ei wneud. Doedd o ddim yn chwarae gemau â neb; yn wir, roedd popeth amdano'n ymddangos yn ddiffuant.

Ceisiais berswadio fy hun mai ei edmygu o bell oedd orau. Ond roedd tueddiad ynof i geisio sicrhau ei fod yn agos ataf. Byddwn yn ei holi am bethau'r tŷ, yn creu problemau i gael eu datrys, yn esgus bod angen rhywbeth arna i. Cawn atebion cwrtais ganddo bob tro, ond roedd yn cadw hyd braich. Do'n i ddim wedi arfer â hynny. Byddai gweision, fel arfer, yn ceisio fy mhlesio. Roedd pobl gyffredin yn ymgrymu wrth fy ngweld ac yn crynu mewn ofn os byddwn i'n anhapus. Gwyddwn, yma yn yr Aifft, fod modd prynu popeth: ffyddlondeb, tawedowgrwydd, emosiwn. Neu dyna a feddyliwn.

Penderfynais fy mod am geisio'i ddenu. Fe driais, fwy nag unwaith; dim llwyddiant. Cododd rhyw gynddaredd rhyfedd y tu mewn imi. Teimlais ei fod yn fy nhrin fel gelyn, a bod yn rhaid iddo fy ngwrthsefyll. Methais yn f'ymdrechion i'w feddiannu; oherwydd hynny, methais ymdopi â cholli'r gêm.

A beth am fy ngŵr? Byddai bob amser yn ffafrio delio â phethau fel hyn yn gyflym, yn hytrach na mynd ati i ddarganfod y gwir. Felly, cwynais am Joseff, a'i gyhuddo. D'wedais mai ef oedd wedi dod ataf fi, fy mod i wedi gweiddi, a'i fod ef wedi dianc gan adael ei ddillad ar ôl. Fe oedd yr un euog, a minnau'r unig dyst.

Carcharwyd Joseff. Dychwelais innau i'r distawrwydd a fu. Meddyliais droeon: tybed oedd Joseff yn tosturio drosof? Ys gwn i a welodd ef mai cartref gwag oedd un fy ngŵr a minnau, heb gyfoeth na bywyd ynddo? Roedd Joseff yn meddu ar rywbeth na allem ni fyth ei gyffwrdd.

Cofiwch nad yw casineb bob amser yn datblygu mewn eiliad; weithiau bydd yn tyfu'n araf, am iddo wreiddio yn ystafell y galon oer. Dim ond gras all ddad-wneud hynny.

**Holi**

- Sut ydych chi'n ymateb i wraig Potiffar? Ydych chi'n edrych arni â llygaid beirniadol neu rai tosturiol?
- Cafodd Joseff ei brofi yn y dirgel a'i gyhuddo ar gam. Pa sefyllfaoedd heddiw sy'n dangos camddefnyddio grym dinistriol?
- Pa wersi ymarferol sydd yma am osod ffiniau personol, osgoi temtasiwn, a gofalu am iechyd meddwl ac ysbrydol (ni ein hunain ac eraill)?
- Yn yr ymson, dywed gwraig Potiffar fod Joseff yn 'meddu ar rywbeth na allem ni fyth ei gyffwrdd'. Ydy Joseff yn berchen ar y rhinweddau sydd yn cael eu nodi yn Philipiaid 4:8?

**Gweddi**

Os ydym yn teimlo'n ansicr neu'n simsanu, cymer ni i'th ofal.
Os oes ofn arnom am ba reswm bynnag, cysura ni.
Os ydym wedi ein siomi, neu wedi siomi eraill, rhyddha ni o'r gofid hwnnw.
Maddau inni am bob bai a chamgymeriad.
Derbyn ni, a gwna ni'n dystion gwir i'th gariad. Amen.

**Siân Meinir**

**Cyhoeddiadau Radio a Theledu, 7 Mehefin 2026**

**Radio Cymru**

*Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 7 Mehefin, am 7:30yb a 4:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Angela Williams, Llanfair-pwll

*Oedfa Radio Cymru*
**Sul, 7 Mehefin am 12:00yp**
Oedfa dan arweiniad Gwilym Jeffs, Caerdydd

*S4C Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul, 7 Mehefin, am 7:00yh – Uchafbwyntiau**
Bydd Rhodri Gomer yn rhannu gwledd o ganu mawl a straeon ysbrydoledig wrth i ni fwynhau rhai o uchafbwyntiau'r gyfres

# ARTEMIS 2

Mae'n siŵr gen i fod nifer fawr ohonom wedi bod yn dilyn taith y gofodwyr yn y llong ofod Artemis 2 dros benwythnos y Pasg – y daith gyntaf i'r lleuad ers dros 50 mlynedd a aeth â'r criw yn ddyfnach i'r gofod nag unrhyw daith o'r blaen. Ac rydyn ni i gyd wedi gweld delweddau rhyfeddol o'r byd a'r lleuad o'r llong ofod.

### Un gwrthrych

Mae'n arfer gan ofodwyr i gario un peth personol gyda nhw ar bob taith. Ymhlith y pethau personol a ddewisodd y gofodwyr i fynd gyda nhw ar y daith hon yr oedd llyfr nodiadau gan un, mwclis siâp y lleuad gan un arall, nodiadau wedi'u 'sgrifennu gan y teulu gan y trydydd a Beibl gan y pedwerydd. Ond mae'r dewis wedi bod yn ddiddorol ac amrywiol dros y blynyddoedd, er enghraifft aeth un â gitâr i'r gofod, un arall glwb golff – 6 haearn – a dwy bêl, i enwi ond ambell beth. A rhaid cofio hefyd fod gonc Mistar Urdd ar daith i'r gofod ym 1998 gyda Dafydd Rhys Williams, gofodwr o Ganada o dras Gymreig, wrth iddo deithio i'r Orsaf Ofod Ryngwladol.

### Swper yr Arglwydd

Pan oedd Buzz Aldrin yn rhan o'r daith lwyddiannus i'r lleuad ei ddewis e oedd mynd â bara a gwin gydag e. Ie,




elfennau'r Cymundeb. Aeth â phecyn plastig bach yn cynnwys bara a ffiol fach o win, ynghyd â chwpan cymun a ddarparwyd gan ei eglwys. Ar 20 Gorffennaf 1969, yn fuan ar ôl glanio ar y lleuad, cynhaliodd Buzz Aldrin y seremoni grefyddol gyntaf yn y gofod drwy gymryd cymun yn breifat. Yn flaenor yn Eglwys Bresbyteraidd Webster, aeth Aldrin â bara a gwin gydag e i'w cymryd i fynegi diolchgarwch ac i nodi'r gamp hanesyddol fel eiliad o arwyddocâd dwyfol. Darllenodd Aldrin o Ioan 15:5 'Myfi yw'r winwydden; chwi yw'r canghennau' a chymryd y cymun. Ar gais NASA i osgoi dadlau crefyddol posibl ni rannodd Aldrin y gwasanaeth yn gyhoeddus, ond gofynnodd am ychydig funudau o dawelwch. Digwyddodd y cymun yn ystod awr o seibiant a drefnwyd cyn iddo gerdded ar y lleuad.

Ie, mynd â rhywbeth personol ar y daith – ac mae'r pethau personol yn amrywio o berson i berson. Pe baech chi neu fi'n mynd ar daith i'r gofod, beth fydden ni'n ei ddewis fel eitem bersonol tybed? Ymhlith yr holl bethau sy'n eiddo i ni, tybed beth yw'r un peth pwysig?

**Beti Wyn James**

*(Allan o'r Ddolen, papur Bancyfelin, Cana, Elim, Heol Awst a'r Priordy. Rhifyn 2 Mai 2026)*

CRISTNOGAETH 21

Trafodaeth ar Zoom

Mehefin 29, 18.30 – 19.30

- Pwy ydyn ni?
- Beth ydyn ni'n ei wneud?
- Beth yw ein cynlluniau?

Dewch i ddysgu mwy am C21 ac ymuno yn y sgwrs

I gael y ddolen Zoom, anfonwch neges at cristnogaeth21@gmailcom


# Grŵp trafod y Beibl

Yn ddiweddar cawsom fendith wrth fyfyrio ar y geiriau, 'Y mae cariad yn gymwynasgar' (I Corinthiaid 13:4(b)). 'Cymwynasgar' – *chrestôtês* yw'r gair yn y Roeg gwreiddiol. Nid yw hi'n bosibl i ddod o hyd i un gair yn y Gymraeg sy'n cynnwys popeth sy'n oblygedig yn y gair *chrestôtês*. Fe'i cyfieithir i'r Gymraeg hefyd trwy ddefnydd o'r geiriau 'tirion', 'daionus' a 'caredig'. 'Y mae cariad yn garedig' yw cyfieithiad Beibl.net.

### Gwyrth gyntaf Iesu


Buom yn canolbwyntio ar nifer o hanesion sy'n portreadu caredigrwydd yr Arglwydd Iesu, ac yn eu plith hanes y briodas yng Nghana Galilea (Ioan 2: 1–12). Gwlad o winllannoedd oedd Israel, ac roedd gwin yn ddiod naturiol a chyffredin i'r Iddew. Roedd y cyflenwad dŵr yn fynych wedi ei heintio ac felly er mwyn sicrhau iechyd corff roedd y bobl yn yfed gwin. Nid oedd neb yn ffieiddio meddwdod yn fwy nag Iddewon oes Iesu Grist. Roedd absenoldeb gwin mewn priodas yn embaras cymdeithasol. Mae Iesu ynghyd â'i fam a'i ddisgyblion yn y briodas. Ar ganol y gwledda a'r dathlu, 'pallodd y gwin' ac mae Iesu yn troi chwech o lestri oedd yn dal dŵr yn chwech o lestri'n llawn gwin. Dywed Ioan, 'Gwnaeth Iesu hyn, y cyntaf o'i arwyddion, yng Nghana Galilea.' (Ioan 2:11) 'Profodd llywydd y wledd y dŵr, a oedd bellach yn win, heb wybod o ble'r oedd wedi dod.' Dyna ni – y wyrth gyntaf. Rhywbeth eithaf *low-key* o'i gymharu â galw Lasarus o'r bedd ac iacháu gŵr a fu'n orweddiog wrth bwll Bethesda am ddeunaw mlynedd ar hugain. Yr hyn sy'n syndod yw bod Iesu wedi cyflawni ei wyrth gyntaf er mwyn arbed pâr bach cwbl ddi-nod rhag embaras mawr wrth droi'r dŵr yn win. Fe wnaeth hynny heb dynnu sylw ato'i hun. Nid oedd llywydd y wledd yn gwybod o ble roedd y cyflenwad newydd o win wedi dod na'r pâr ifanc chwaith. Gwyddent ei fod yn rhagori ar unrhyw win roeddent wedi ei flasu erioed o'r blaen. Pe buasai Iesu wedi iachau rhai o'r cleifion yng Nghana neu gyfodi rhywun o farw byddai'r stori yn y penawdau. Ysgogwyd gwyrth agoriadol gweinidogaeth Iesu nid gan ryw drasiedi erchyll neu newyn neu argyfwng moesol ond gan ei gonsyrn dros ffrindiau mewn cornel. Nid oedd yn ddiwedd y byd pan ballodd y gwin

*parhad ar y dudalen gefn*

## Barn Annibynnol

# Yng nghysgod yr encil

Cafodd gweinidogion ac arweinyddion yr Annibynwyr amser bendithiol iawn o fynychu encil yn ninas Lerpwl. Cawsom amser da a chyfle un prynhawn i deithio yn y ddinas a gweld rhai o'i chapeli mawr fu'n Gymraeg eu haddoliad, a dwy fynwent lle mae llawer o Gymry enwog Lerpwl wedi'u claddu. Hyfryd, dan arweiniad Sian Meinir oedd cael canu'r emyn 'Dyma gariad fel y moroedd' wrth fedd Gwilym Hiraethog a'r emyn 'O na bawn i fel Efe' wrth fedd Eleazer Roberts ym mynwentydd Anfield a Toxteth. Roedd yr ymweliad â dinas Lerpwl yn brofiad hyfryd, ei strydoedd llydan gydag adeiladau hanesyddol pensaernïol braf yn wledd i'r llygaid, a bydd yn siŵr o fy nenu yn ôl yn fuan, yn arbennig gan mor hawdd oedd cyrraedd y gwesty lle gwnaethom aros, sef y Radisson RED wrth ymyl gorsaf drên Lime Street.



### Hanes un o fawrion Lerpwl

Wedi'r ymweliad penderfynais ddarllen hanes un o fawrion Lerpwl yn hanes Cymry'r ddinas yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg sef John Thomas, y gweinidog enwog gyda'r Annibynwyr, gan bori yn ei gofiant *Cofiant y Parch John Thomas, DD, Liverpool* gan Owen Thomas a J. Machreth Rees. A dyma rannu gyda chi ychydig o argraffiadau fy narllen gan ganolbwyntio ar ei hanes cynnar cyn ac yn ystod blynyddoedd ei weinidogaeth yng nghapel Bwlchnewydd yn Sir Gaerfyrddin. Gogleddwr wedi ei eni yn 1821 yng Nghaergybi ydoedd, i deulu a addolai gyda'r Methodistiaid Calfinaidd. Diddorol yw'r ffaith ei fod wedi ei fedyddio'n faban gan John Elias, ac roedd yn dda gan John Thomas i feddwl ei fod wedi bod ym mreichiau'r seraff bregethwr hwnnw. Symudodd y teulu i Fangor yn 1827 yn ac yno y maged J. Thomas. Hanes trist oedd marw cynnar ei dad, yn gadael yn amddifad wraig, mam ac wyth o blant, ac eto llwyddodd y fam a'i bechgyn yn rhyfeddol i gael dau ben llinyn ynghyd.

### Teithiau pregethu'r cyfnod

Fel roedd yn nodweddiadol o'r cyfnod roedd gweinidogion yr ymneilltuwyr yn arfer mynd ar deithiau pregethu helaeth, a rhyfeddais at deithiau pregethu John Thomas a'r sawl fu'n gydymaith iddo. Yn fuan wedi iddo gychwyn pregethu, ac ar adeg lled fywiog ar grefydd – adeg o ddiwygiadau – bu ar daith pregethu yn Eifionydd a Llŷn gan ymweld â dau ar bymtheg o gymunedau a phregethu mewn capeli a lleoliadau gwahanol canol dydd ac yn yr hwyr. A cherdded o fan i fan a wnâi ar ei deithiau.

Bu am gyfnod yn derbyn addysg yn athrofa Ffrwdfâl yn ardal Cynwyl Gaeo, Sir Gaerfyrddin gan bregethu yn helaeth yng nghanolbarth Cymru a dwyrain Sir Gâr, ar ei ffordd i Grug-y-bar. Bernir ei fod wedi teithio tua 60 o filltiroedd yn ystod y penwythnos ar gylchdaith bregethu ar y Sul i Lanwrtyd, Abergwesyn a Beulah. Ac ar ddiwedd ei gyfnod yn Ffrwdfâl fe aeth John Thomas gyda'i gyfaill Noa Stephens ar daith bregethu drwy rannau o Sir Gâr a Sir Benfro. Dechreuwyd yn Llandeilo gan deithio i gyfeiriad Llanelli heibio Penygroes a Cross Inn (Rhydaman) gan dreulio'r Sul yng Nghapel Als a Siloa, yna ymlaen i Bont-iets ac i dre Caerfyrddin, cyn mynd ymlaen i Sanclêr, Arberth, Maenclochog ac i Hwlffordd i weld y dref, yna ymlaen i Drefgarn ac i gyffiniau Tyddewi cyn dychwelyd ar hyd y glannau i Abergwaun a Threfdraeth. Dyna ble ymadawodd y ddau â'i gilydd, ond fe wnaeth John Thomas aros yno i weinidogaethu am gyfnod. Roeddent wedi pregethu i oddeutu 30 o gynulleidfaoedd i gyd gan deithio i gymunedau gwahanol bob prynhawn a hwyr yn ddyddiol.

Treuliodd gyfnodau yn Nhrefdraeth ac yn Siloa, Llanelli ond ni chafodd alwad yn y naill le na'r llall. Tebyg iawn fod gan John Thomas bryd hyn ddigon o amser ar ei ddwylo. Bu ar daith bregethu helaeth ym Morgannwg, a hyd yn oed wedi ei ordeinio ym Mwlchnewydd ym mis Mehefin 1842, parhaodd i fynd ar deithiau pregethu, ac yntau erbyn hyn wedi cael ceffyl i hwyluso ei deithiau. Yng nghwmni David Rees, Llanelli bu'n pregethu yn helaeth am bythefnos, eto ym Morgannwg, yng Ngwent, Brycheiniog a Sir Gâr cyn dychwelyd i Fwlchnewydd. Cafodd bregethu yn helaeth mewn cymanfaoedd sirol a chyrddau chwarter, mewn cyfarfodydd diwygiadol a chenhadol.

### Taith fawr i'r Gogledd

Ym mis Mehefin 1844 argraffodd bregeth o'i eiddo ar y testun 'Yr Adferiad Mawr' i'w gwerthu yn yr eglwysi ar ei ymweliadau ac ar gyfer taith pregethu i'r Gogledd yn ystod yr haf, sef ei daith gyntaf i'r Gogledd wedi ei sefydlu yn y De. Aeth Benjamin Evans yn gydymaith gydag ef, a buont yn teithio a phregethu yn helaeth gydol y daith o Lansadwrn, heibio Aberaeron, Aberystwyth, Machynlleth, Llanfyllin, Croesoswallt, Rhosllannerchrugog, yna Llangollen, Y Bala, ymlaen i Ddolgellau, Porthmadog ac i Fangor, cyn mynd yn eu blaen i Sir Fôn. Ym Miwmares gwnaethant ddal y *steamer* i Lerpwl, lle pregethodd ym Mhenbedw, ym Manceinion ac yn Lerpwl ei hun cyn troi am adref drwy wlad a threfi Clwyd, a dychwelyd drwy'r Bala ac Aberystwyth i'w gartref a'i ofalaeth ym Mwlchnewydd. Ond ym mis Medi aeth am daith drwy Sir Benfro am bythefnos, ac yn ôl ei gofiant yn ystod ei gyfnod ym Mwlchnewydd bu ar deithiau pregethu helaeth drachefn yn y De a'r Gogledd!

### Cyfnod cyffrous

O na chawn fwynhau cael mynd ar deithiau pregethu yn ein cyfnod ni a phrofi cyffelyb gyfaredd! Mor dawel a marw ydym o ran ein traddodiadau eglwysig i gynnal cyfarfodydd pregethu bellach yng Nghymru. Rwy'n cael hanes teithiau John Thomas, a phregethwyr eraill ei gyfnod yn gyffrous iawn. Rhaid bod John yn gryf o gorff i fod wedi wynebu'r holl deithiau. Diau ei fod yn gerddwr mor egnïol ag Iolo Morgannwg, a pha ryfedd, oherwydd meddai John Thomas yn ei eiriau ei hun, 'Nofiais yn groes i'r Fenai lawer gwaith cyn fy mod yn 12 oed.' Rhyfeddol yn wir!

**Emyr Gwyn Evans**

((Nid yw'r hyn a ysgrifennir yn yr erthyglau Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr nac ychwaith y tîm golygyddol.)

*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru

*Golygyddion*

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# Grŵp trafod y Beibl – parhad



ond fe fyddai rhai mae'n siŵr yn cofio bod hynny wedi digwydd am flynyddoedd i ddod ac yn dwyn hynny i gof yng ngŵydd y pâr ifanc a hwythau'n cael eu dolurio.

### Nid oes neb yn ddi-nod

Mae'r wyrth gyntaf hon yn dangos bod gan Dduw ofal a chonsyrn am y pethau bach yn ein bywyd yn ogystal â'r pethau mawr. 'Gadewch i ni glosio at orsedd Duw yn hyderus. Mae Duw mor hael (mor garedig)! Bydd yn trugarhau wrthym ni ac yn rhoi popeth sydd ei angen arnom ni.' (Hebreaid 4:141–6). Pa mor fychan yw'n dolur, pa mor fychan bynnag yw'n hangen fe allwn ni fynd â'r cwbl gerbron Duw yn y sicrwydd y bydd ef yn ei garedigrwydd yn gwrando ac yn gweithredu. Credodd Iesu fod y pâr ifanc yng Nghana yn werth ei garedigrwydd. Mae Duw yng Nghrist yn datgelu mor glir ei fod yn credu ein bod ni'n werth ei garedigrwydd hefyd. Amlygir ei garedigrwydd mewn cynifer o wahanol ffyrdd ond yn arbennig trwy farw aberthol Mab Duw drosom ar y Groes. 'Pwy ddylai gael ei garu Mor annwyl ag Efe, A ddaeth o fodd ei galon i farw yn fy lle?' (Thomas Rees) Wrth droed y Groes y gwelwn gariad ac yno mae'n cariad a'n caredigrwydd ni'n cael ei ysbrydoli. 'Yn unedig yn dy gariad fo'n gweithredoedd drwy ein hoes, dryllia ragfur rhwysg a rhaniad ac amlyga rym y groes.' (Hywel Griffiths)

**Parchg Andrew Lenny**

*(Allan o Pigion Peniel Rhif 26: Ebrill 2026)*


# Taith gofalaeth Caerfyrddin a Bancyfelin



Teithiodd llond bws o aelodau'r ofalaeth a'u cyfeillion i'r gorllewin ym mis Ebrill gyda haul y gwanwyn yn gwenu ar bawb. Roedd Robert a staff hynaws Caffi Beca, Efail-wen yn ein disgwyl gyda brecwast hwyr/cinio cynnar blasus ar ein cyfer. Roedd bryniau'r Preseli ar eu gorau wrth i ni syllu drwy ffenestri mawr Caffi Beca ar ei newydd wedd. Cawsom ein hatgoffa gan Beti-Wyn taw ein Gill a Danny Owens ni (P) agorodd Caffi Beca yn 1964 gan ychwanegu at y garej a'r becws, a buont yn gweithio'n ddiwyd yno tan eu hymddeoliad yn 2002. Braf oedd cael Gill gennym ar y daith a chofion annwyl at Danny. Testun balchder iddynt yw gweld y caffi mor boblogaidd heddiw ag erioed.



### Olion a hanes Oes y Seintiau



Ymlaen â ni i Nanhyfer ble cawsom y fraint o gwrdd â'r hanesydd lleol a'r archeolegydd Hedd Ladd Lewis a gwrando arno'n rhannu ychydig o hanes eglwys Sant Brychan gyda'i chroes Geltaidd a'i charreg ogam, ei beddau hynafol ynghyd â chwedlau'r ywen waedlyd. Roedd profi tawelwch Nanhyfer ar brynhawn mor fendigedig o wanwyn yn wir yn brofiad dyrchafol.

Rydym bob amser yn teimlo'n ddiogel iawn pan mae Elfed Lewis, ein gyrrwr bws ffyddlon wrth y llyw, ac roedd ei weld yn llywio'r bws drwy lonydd cul a heriol Trefdraeth yn destun rhyfeddod i ni gyd! Ein hymweliad nesaf oedd â Chanolfan Bethlehem yn Nhrefdraeth – capel gyda'r Bedyddwyr. Gyda'r gynulleidfa wedi lleihau penderfynodd y gweddill ffyddlon addoli mewn capeli eraill yn yr ofalaeth a rhoi'r adeilad ar werth. Prynwyd yr adeilad gan y gymuned a'i throi'n ganolfan. Yno i'n croesawu roedd y grefftwraig ddawnus Aeres James – un o ferched yr ardal – a chawsom ein synnu o weld fel y mae'n plethu gwellt i greu'r campweithiau mwyaf rhyfeddol! Hyfryd oedd dysgu am hanes y ganolfan a chrwydro o amgylch yr arddangosfa.

Taith fer oedd gennym wedyn i Blas Llwyngwair ar gyfer te prynhawn godidog. Cafodd ein gweinidog gyfle i fynegi ein gwerthfawrogiad o waith Olga (HA) a fu'n trefnu'r trip yn drylwyr iawn ar ein cyfer, ac i Joanne Richards (B), Mair Jones (C), Ann Walters (E) a Rhian Jones (P) am gasglu enwau yn y gwahanol gapeli. Cyfarchwyd Beti-Wyn ar gân gan ei bod yn dathlu ei phen-blwydd! Diolchwyd yn arbennig hefyd i Elfed Lewis am ein gyrru'n ddiogel.

*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*